# Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD LLUN, 23AIN MEDI, 2019**

Lleoliad

**Swit 4, Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9XX**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**annession@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 17 Medi 2019)

# IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert G Parry | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Greg Robbins | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth Wyn Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Brian Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| David Bithell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Carolyn Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

## Aelod Cyswllt o’r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Huw Percy | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Geraint Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Emlyn Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Darren Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Stephen Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Wyn Williams | Cyngor Gwynedd |
| Iwan Prys Jones | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU** 4 - 6

Cyflwyno cofnodion cyfarfod anffurfiol y Grŵp Ymgynghorol Aelodau Cabinet Trafnidiaeth a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2019 (ynghlwm).

**5. PROTOCOL A CHYFRIFOLDEBAU YR IS-GRWP** 7 - 12

Adroddiad gan Iwan Evans – Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya (ynghlwm).

**6. RHAGLEN A CHYNLLUN GWAITH Y GRWP** 13 - 14

Adroddiad gan Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Amgylchedd yr Awdurdod Lletya (ynghlwm).

**7. CLUDIANT CYHOEDDUS** 15 - 23

- Bysiau - diweddariad
- Tocynnau Mantais
- Trafnidiaeth Addysg
- Adolygiadau Trafnidiaeth Cyhoeddus

(ynghlwm)

**8. RHAGLEN DATGARBONEIDDIO**

- Arolwg Gwefru EV [SP Energy]
- Prosiect Peilot Bysiau Gwyrdd - diweddariad

**9. DIWEDDARIAD FFRYDIAU GWAITH**

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

| **Cyfarfod:** | Grŵp Ymgynghorol Aelodau Cabinet Trafnidiaeth | **Dyddiad:** | 20.05.2019 |
|---|---|---|---|

| **Yn bresennol:** |
|---|
| Cyng. David A Bithell, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; Cyng. Carolyn Thomas, Cyngor Sir y Fflint; Cyg. Donald Milne, Cygor Bwrdeistref Sirol Conwy; Cyng. Gareth Griffith, Cyngor Gwynedd; Cyng. Brian Jones, Cyngor Sir Ddinbych; Cyng. Bob Parry Cyngor Sir Ynys Môn.<br><br>Yn mynychu:<br>Darren Williams, Stephen O Jones, Tony Ward, Dafydd Wyn Williams, Geraint Edwards, Huw Percy, Iwan Prys Jones Iwan Evans, Vera Jones (Cyngor Gwynedd) rhan<br><br>Cynhaliwyd yng:<br>Nghanolfan Fusnes Conwy @ 1400 |

| **Ymddiheuriadau:** |
|---|
| Lawrence Isted, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| **Rhif yr Eitem** | **1 a 2** |
|---|---|
| **Teitl:** | **Croeso ac Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant** |
| **Sylwadau:** | Agorodd y Cynghorydd DB y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol.<br>Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant. |
| **Penderfyniad:** | |

| **Rhif yr Eitem** | **3** |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2019** |
| **Sylwadau:** | Adolygwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2019<br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oedd rhaglen y cyfarfod yn mynd i'w hystyried. |
| **Penderfyniad:** | Derbyniwyd y cofnodion |

| **Rhif yr Eitem** | **4** |
|---|---|
| **Teitl:** | **Materion Cyfansoddiadol -** Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth |
| **Sylwadau:** | Ymunodd Iwan Evans a Vera Jones o Gyngor Gwynedd â'r cyfarfod er mwyn egluro prosesau llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais, rôl Gwynedd fel awdurdod lletya a goblygiadau symud i is-bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd Uchelgais.<br>Ym mis Chwefror 2019 cytunodd y Bwrdd Uchelgais i'r cynnig i sefydlu'r grŵp Aelodau Cabinet Trafnidiaeth anffurfiol yn is-bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd Uchelgais. Rhoddodd y broses hon o ffurfioli ei rôl statws i'r grŵp a fyddai'n help wrth i'r trafodaethau ynghylch creu Cyd-Awdurdodau Trafnidiaeth fynd rhagddynt.<br>Pwrpas yr eitem agenda hon oedd trafod y Cylch Gorchwyl cytunedig ac ymarferoldeb sut fyddai'r is-bwyllgor ffurfiol yn gweithio dan y strwythur newydd.<br>Cynhaliwyd trafodaeth fanwl ar y dogfennau cytunedig yn cynnwys y Cylch Gorchwyl. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn<br>• Roedd y lefel ddirprwyo gyfredol i'r Bwrdd Uchelgais yn gyfyngedig, ond roedd yn cefnogi cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Economi'r Gogledd ynghyd â gwaith paratoadol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. |

| | |
|---|---|
| | • Ymhen amser, byddai gan yr is-bwyllgor rôl allweddol i reoli rhaglen y gwaith o gyflwyno arian a glustnodir drwy'r Cynllun Twf.<br>• Byddai gan y grŵp y gallu i wneud argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais ynghylch pwerau'r dyfodol neu unrhyw ddirprwyo fyddai ei angen er mwyn cyflawni prosiectau trafnidiaeth strategol yn y rhanbarth.<br>• Roedd Ian Roberts wedi'i enwebu gan y Bwrdd Uchelgais i weithredu fel y cyswllt rhwng y grŵp a'r Bwrdd Uchelgais.<br>• Rhoddid manylion am y broses i ddatrys unrhyw bleidlais ddiddatrys yn y grŵp yn y Cylch Gorchwyl.<br>• Nodwyd y protocolau sydd wedi'u nodi yn y cytundeb llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Uchelgais. Yn benodol, roedd y gofyn i bapurau'r cyfarfod gael eu hanfon i grŵp swyddogion mewn pryd i sicrhau y caiff unrhyw faterion eu datrys, wedi'u diffinio. Gallai hyn naill ai fod drwy ddosbarthu am sylwadau neu gellid trefnu cyfarfod swyddogion pe byddai angen.<br>• Byddai amserlen o gyfarfodydd gyda rhaglen waith tymor hir yn cael eu datblygu.<br>• Roedd cefnogaeth ar gyfer cynnal cyfarfodydd ar hap i aelodau, fodd bynnag, cynghorwyd y grŵp i fod yn wyliadwrus ynghylch sefydlu cyfarfodydd anffurfiol.<br>• Roedd cefnogaeth i barhau â'r cyfarfodydd yn y lleoliad cyfredol.<br>• Roedd cyllideb y Bwrdd Uchelgais yn cynnwys adnoddau digonol i ddarparu ysgrifenyddiaeth, cyngor cyfreithiol a chefnogaeth arall.<br>• Ar sail y trafodaethau, byddai Gwynedd fel yr awdurdod lletya yn ystyried ail-ddrafft o'r protocolau cyfredol i adlewyrchu rôl y grŵp. Byddai'r rhain yn cynnwys (1) proses i gytuno ar agenda yn cynnwys unrhyw briffio ymlaen llaw sydd ei angen (2) cyhoeddi papurau a chofnodion gan yr awdurdod lletya, gyda chysylltiadau i awdurdodau eraill (3) y mater ffurfiol o hysbysiad penderfyniadau yn union wedi'r cyfarfod. |
| **Penderfyniad:** | 1. Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau<br>2. Caiff unrhyw newidiadau i'r Cylch Gorchwyl a'r protocolau eu cyfeirio'n ôl i'r grŵp er gwybodaeth<br>3. Bydd amserlen cyfarfodydd a rhaglen waith hir dymor yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf. |

| **Rhif yr Eitem** | **5** |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cludiant Cyhoeddus** |
| **Sylwadau:** | Rhoddodd yr aelodau ddiweddariad ar y newidiadau diweddar a wnaed i amserlenni bysiau. Nodwyd rhai pryderon ynghylch newidiadau sylweddol a gweithredwyr yn canslo gwasanaethau. Roedd hyn yn arwain at aflonyddwch sylweddol i ddefnyddwyr bysiau, costau ychwanegol i awdurdodau a nemor ddim diddordeb mewn tendro ar gyfer contractau newydd.<br>Nodwyd y cynigion oedd ar y gweill i wella rheolaethau, ond gan fod y ddeddfwriaeth tua 18-24 mis i ffwrdd, roedd pryderon y gallai difrod sylweddol ddigwydd cyn iddi gael ei gweithredu.<br>Amlygodd pob awdurdod y materion a oedd yn effeithio ar wasanaethau. Roedd hi'n glir bod yr effeithiau'n anghyson. Ar hyn o bryd, roedd gwasanaethau Sir y Fflint yn dioddef y mwyaf i aflonyddwch, ond roedd ardaloedd eraill yn cael eu heffeithio hefyd. Disgrifiwyd y sefyllfa fel argyfwng mewn rhai ardaloedd.<br>Trafodwyd yr amrywiol brosiectau a oedd ar y gweill ynghylch â'r datrysiadau posib.<br>Nodwyd yr arian a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyflawni rhanbarthol. Er nad oedd hyn yn ddigonol i roi adnoddau iawn i'r holl waith a oedd ei angen, roedd yn cynnig cyfle i ddechrau gwaith ar rwydwaith bysiau rhanbarthol.<br>Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd y dylai cynigion gael eu datblygu i sefydlu strwythur rhanbarthol gydag adnoddau iawn, a fyddai'n sefydlu rhwydwaith strategol yn y Gogledd a rhaglen i gyflwyno partneriaethau o ansawdd ar hyd y rhwydwaith. Yn ogystal, dylai'r cynigion ystyried y gwelliannau posib i isadeiledd a fyddai eu hangen. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Penderfyniad:** | • Cytunodd yr aelodau y dylid cynnal cyfarfod ychwanegol i drafod opsiynau cyflawni posib yn y dyfodol er mwyn sefydlu rhwydwaith bysiau strategol yn y rhanbarth ac y dylid cyflwyno adroddiad ar y cynigion. |

| | |
|---|---|
| **Rhif yr Eitem** | **6** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Waith y Dyfodol** |
| **Sylwadau:** | Trafododd yr aelodau faterion ar gyfer rhaglen waith y grŵp yn y dyfodol. Codwyd yr eitemau a ganlyn fel eitemau posib i'w trafod yn y dyfodol<br>• Rhwydwaith Bysiau Strategol a phrosiectau cysylltiedig<br>• Papur Gwyned - Gwella Trafnidiaeth a chynigion i sefydlu Cyd-Awdurdod(au) Trafnidiaeth<br>• Datgarboneiddio trafnidiaeth a'r prosiectau peilot a oedd ar y gweill<br>• Datblygiadau rheilffyrdd a chyfleoedd ar gyfer integreiddio moddol<br>• Strategaeth Trafnidiaeth Cymru / Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r angen i adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a Rhanbarthol<br>• Gweithredu parthau 20mya<br>• Strategaeth ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu<br>• Teithio Llesol<br>• Ansawdd Aer ac effaith ar rwydweithiau trafnidiaeth.<br>Cytunodd Cyng. David Bithell i ddosbarthu papur ar gynnydd gyda Theithio Llesol |
| **Penderfyniad:** | • Nododd yr aelodau'r diweddariad gan wneud cais am raglen waith hir dymor yn y cyfarfod nesaf |

| | |
|---|---|
| **Rhif yr Eitem** | **7** |
| **Teitl** | **Unrhyw Fater Arall** |
| **Sylwadau** | Ni chodwyd unrhyw fater pellach. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod Nesaf:** | 0930 ar 23 Medi 2019 yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno<br>Gyda chyfarfod ychwanegol ym mis Mehefin / Gorffennaf i'w gadarnhau |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AR GYFER:** | **IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH** |
| **DYDDIAD:** | 23 MEDI 2019 |
| **TEITL:** | Trefniadau Cyfansoddiadol ar gyfer Is Fwrdd Trafnidiaeth |
| **DIBEN:** | I gyflwyno protocol Gweithredol ar gyfer yr Is Fwrdd |
| **ARGYMHELLIAD:** | 1. Cymeradwyo'r Protocol.<br>2. Adnabod Swyddog Arweiniol ar gyfer Yr Is-Fwrdd. |
| **AWDUR:** | Iwan Evans - Swyddog Monitro |

**Cyflwyniad**

Yn dilyn sefydlu'r Is-Fwrdd yn ffurfiol mae'r adroddiad yn gosod allan y trefniadau ffurfiol a chylch gorchwyl ar ei gyfer. Mae ei statws fel is-bwyllgor ffurfiol yn golygu fod ystod o ofynion statudol a chyfansoddiadol sydd yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys elfennau o Gytundeb Llywodraethu 1 a'r amodau a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ( "BUE") wrth benderfynu sefydlu'r Is-Fwrdd.

Amcan y Protocol yw esbonio'r gofynion yma a darparu trefniadau ymarferol I symud gwaith yr Is-Fwrdd ymlaen.

Mae'r BUE wedi penodi'r Cynghorydd Ian Roberts , Arweinydd Cyngor fel yr aelod cysylltiol ar gyfer Trafnidiaeth

**ARGYMHELLION**

1. Cymeradwyo'r Protocol.

2. Adnabod Swyddog Arweiniol ar gyfer Yr Is-Fwrdd.

**<u>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</u>**

# IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

## Trefniadau Gweithredol

Mae Is-Fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth ("IFCT") yn Is-bwyllgor statudol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUE) . Mae ganddo gylch gorchwyl a phwerau wedi'u dirprwyo gan y BUE . Mae ei Gylch Gorchwyl manwl a'i drefn llywodraethu wedi'u nodi yr Atodiad

### 1. Aelodaeth

Daw aelodaeth y IFCT o blith Arweinyddion Cabinet/ Gweithrediant Trafnidiaeth chwe Cyngor Gogledd Cymru. Penodir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o blith yr aelodau hyn. Mae darpariaeth ar gyfer penodi dirprwyon i fynychu yn absenoldeb yr aelod arweiniol . Bydd y BUE yn dynodi Arweinydd Cyngor i weithredu fel aelod cyswllt gyda’r IFCT.
.

### 2. Swyddogion

Bydd swyddogion yn mynychu'r cyfarfod i ddarparu cyngor , gan gynnwys Swyddogion Statudol, Monitro a Chyllid. Bydd swyddogion eraill yn mynychu cyfarfodydd sydyn ôl yr angen i gyflwyno adroddiadau. Dynodir Swyddog Blaen i gyd-gordio gwaith y IFCT

### 3. Cyfarfodydd

Fel Is-bwyllgor statudol, tybir y bydd y cyfarfodydd a'r dogfennau yn agored i'r wasg a'r cyhoedd. Felly, mae gofynion statudol yng nghyswllt hysbysu am gyfarfodydd a chyhoeddi rhaglenni ac adroddiadau.

Gellir eithrio y wasg a'r cyhoedd ar seiliau statudol penodol, sy'n cynnwys datgelu gwybodaeth sy'n ddeunydd cyfrinachol, ynglŷn a thrafodaethau cytundebol neu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif. Y Swyddog Monitro yn gweithredu fel Swyddog Priodol fydd yn penderfynu ar statws yr adroddiadau ar y seiliau statudol ac mae'n amodol ar brawf budd cyhoeddus.

Caiff rhaglenni ac adroddiadau'r cyfarfodydd eu cyhoeddi ddim hwyrach na phum diwrnod clir cyn y cyfarfod.

Cynhelir y cyfarfodydd mewn lleoliadau priodol yng Ngogledd Cymru
Bydd cyfarfodydd arferol yn dechrau ar y dyddiadau ac amseroedd sydd wedi'u nodi yng nghalendr y cyfarfod. Gall y IFCT osod ei galendr ei hun o gyfarfodydd ac, os bydd angen, mae darpariaethau yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer cyfarfodydd Arbennig.

**.4. Adroddiadau Drafft**

Bydd yr adroddiadau drafft i'r  IFCT yn cael eu cylchredeg i'r Penaethiaid Adran perthnasol  er cymeradwyaeth terfynol ynghylch cynnwys ac argymhellion.

**5. Rhaglen ac Adroddiadau**

Bydd Rhaglenni ac Adroddiadau i'r Cyd-bwyllgor yn y ffurf sydd ynghlwm. Cânt eu paratoi a'u cyfieithu gan eu hawdur neu swyddog perthnasol. Nid oes darpariaeth ar gyfer adroddiadau llafar a rhaid i adroddiadau gael eu cyhoeddi gyda'r rhaglen.

Caiff Adroddiadau ac Atodiadau eu cylchredeg i'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Cyllid er mwyn cynnwys y rhannau Cyfreithiol ac Ariannol. Gwneir ceisiadau am eitemau eithriedig ar y cam hwn. Rhaid i unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r adroddiad a argymhellir gan y Grŵp Gweithredol gael eu hail-gyflwyno i'r Swyddogion Statudol i'w hadolygu cyn eu cyhoeddi yn Rhaglen y Cyd-bwyllgor.

Dyma'r amserlen  ar gyfer adroddiadau:

1. Adroddiad drafft i'r Swyddogion Statudol - 10  diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y IFCT
2. Cyflwyno adroddiadau i'r pwynt cyswllt yn yr Awdurdod Lletya gyda sylwadau swyddogion statudol  - fersiwn Cymraeg a Saesneg - ddiwrnod cyn cyhoeddi'r Agenda – 7 diwrnod gwaith  cyn  cyfarfod yr IFCT
3. Cyhoeddi'r Rhaglen – 5* diwrnod clir cyn y IFCT

Er mwyn sicrhau bod adroddiadau i'r yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi'n briodol, mae'n rhaid cadw at yr amserlen hon. Caiff adroddiadau hwyr eu gohirio tan gyfarfod addas nesaf y IBCT.

( *yr isafswm statudol a adlewyrchir yn GA1 yw 3 diwrnod clir)

**6. Cyhoeddi a Chyhoeddusrwydd**

Bydd rhaglenni'n cael eu cyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Gwynedd. Caiff y ddolen ei dosbarthu i'r holl aelodau, ymgynghorwyr a swyddogion.

Caiff y ddolen ei dosbarthu i'r wasg

Yn ogystal, caiff y ddolen ei chyhoeddi ar ffrwd Twitter a Facebook BUGC

**7. Pleidleisio a Phenderfyniadau**

Gwneir penderfyniadau drwy bleidlais fwyafrif o'r aelodau . Ni fydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw ond caiff materion eu gohirio tan y cyfarfod nesaf os yw'r bleidlais yn gyfartal.

**8. Codau Ymddygiad**

Bydd aelodau awdurdodau lleol sy'n mynychu'r IFCT wedi'u cyfyngu gan eu Codau Ymddygiad a byddant yn datgan ac yn ymdrin ag unrhyw fuddiant personol yn unol â'r gofynion hynny.. Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori ar faterion sy'n ymwneud â Chôd Ymddygiad.

**9. Iaith a Chyfieithu**

Cynhelir holl gyfarfodydd y IFCT yn ddwyieithog a gall pawb sy'n cymryd rhan siarad drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu Saesneg. Bydd yr Awdurdod Lletya yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

**10. Cofnodion a Thaflenni Penderfyniad**

Fel Cyd-bwyllgor Gweithredol statudol, mae gofyn cyfreithiol i bob penderfyniad gael ei gyhoeddi mewn taflen benderfyniad ffurfiol sy'n cofnodi'r wybodaeth a ganlyn:

(a) y penderfyniad, yn cynnwys y dyddiad y'i gwnaed;
(b) y rhesymau dros y penderfyniad;
(c) datgan buddiant a/neu oddefeb yng nghyswllt y mater;
(d) manylion unrhyw ymgynghoriadau a wnaed yn unol â chyfansoddiad yr awdurdod e.e. swyddogion statudol

Nid oes gofyn ffurfiol i gynhyrchu cofnodion o'r cyfarfod fodd bynnag, mae taflenni penderfyniad wedi'u cyfyngu i gofnodi'r manylion statudol felly bydd cofnodion o’r cyfarfodydd yn cael eu paratoi ..

Caiff taflenni penderfyniad a chofnodion drafft eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Arweiniol a'r Swyddogion Statudol.

**11. Corff Atebol**

Rôl y Corff Atebol yng nghyswllt GA1 yw darparu'r gwasanaethau cefnogol i hwyluso gwaith yr IFCT. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig y swyddogion statudol ond darparu cyngor cyfreithiol, cyngor ariannol a chyngor technegol arall hefyd. Yn ogystal, mae'n cynnwys cefnogaeth pwyllgorau a gwasanaethau cyfieithu ar gyfer paratoi rhaglenni, cofnodion a thaflenni penderfyniad a dogfennau perthnasol eraill.

**IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH.**

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn penodi Is-Fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth i ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu isod.

Bydd yr Is-Fwrdd yn Is-bwyllgor a benodir dan Adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Rheoliadau a wnaed oddi tano.

Bydd yr Is-fwrdd yn cynnwys chwe Chynghorydd, un o bob Cyngor sy'n Bartner a fydd yn Aelodau Gweithredol.

Gellir gwahodd Arsyllwyr i fynychu, yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u cyfraniad posib i'r meysydd cyfrifoldeb.

**CYLCH GORCHWYL**

**RÔL:**

- Cynllunio a chydlynu gwasanaeth trafnidiaeth integredig a chydgysylltiedig yng Ngogledd Cymru.
- Cynllunio, cydlynu a chynghori ar ymatebion rhanbarthol i gynigion Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru.
- Cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau trafnidiaeth strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cynllun Twf a datgarboneiddio trafnidiaeth.
- Adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Bydd yr Is-fwrdd Cyflawni yn Is-bwyllgor o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**DIBEN:**

Ymateb i'r briffiau a'r comisiynau yn unol â chyfarwyddyd a chytundeb y Bwrdd Uchelgais Economaidd, a'u gweithredu.

Mae gan yr Is-fyrddau'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau cyffredinol a ganlyn:

- **Strategol**
  - cydlynu gweithgarwch Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill fel y byddai dull rhanbarthol strategol yn ei le yn y maes polisi perthnasol;
  - darparu cyngor strategol perthnasol i'r Bwrdd;
  - cefnogi'r Bwrdd i ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a rhaglenni ariannu;
  - gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn rhoi cyfarwyddyd ac yn comisiynu'r Is-fyrddau Cyflawni i ymgymryd â thasgau allweddol.
- **Rheoli Prosiectau a Rhaglenni**
  - cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni) perthnasol a gomisiynir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd;

- cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Prosiectau perthnasol a gomisiynir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, yn benodol y Prosiectau sydd wedi'u cynnwys yng "Nghais" y Cynllun Twf. Bydd hyn yn cynnwys datblygu Achosion Busnes Amlinellol unigol a Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer pob Prosiect;
- monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni) perthnasol a Phrosiectau perthnasol a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Bwrdd.

- **Rheoli Adnoddau**
  - goruchwylio defnydd cyllidebau'r prosiectau ym maes trafnidiaeth a sicrhau gwerth am arian yn nefnydd y cyllidebau rheiny;
  - adrodd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar ddefnydd o'r gyllideb a cheisio cymeradwyaeth gan y Bwrdd am unrhyw amrywiadau i'r gyllideb.
- **Rheoli Perfformiad**
  - cydlynu'r gwaith o adrodd ar berfformiad y Rhaglen(ni) a'r Prosiectau perthnasol i'r Bwrdd;
  - cynnal a rheoli system adrodd rheoli perfformiad a risg.
- **Grymoedd yr Is-bwyllgorau**
  - dim wedi'u dirprwyo.

**PERTHYNAS GYDA'R BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD:**

- Gwahoddir Cadeirydd pob Is-fwrdd Cyflawni i rai cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i adrodd ar gynnydd, perfformiad a deilliannau.
- Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn creu Arweinydd Portffolio ar gyfer pob un o themâu yr Is-fyrddau Cyflawni. Arsyllwyr fyddant yng nghyfarfod yr Is-fwrdd, a byddant yn sicrhau cyswllt uniongyrchol gyda'r Bwrdd Uchelgais.

**GWEITHDREFNAU A LLYWODRAETHU:**

- Penodir Swyddog Arweiniol ar gyfer pob un o'r Is-fyrddau Cyflawni.
- Fel arfer, bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy gonsensws ac yna bydd chwe aelod yr awdurdodau lleol yn pleidleisio'n ffurfiol er mwyn cael mwyafrif syml.
- Os bydd y bleidlais yn gyfartal, caiff y mater ei gyfeirio i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd am benderfyniad.
- Ym mhob agwedd arall, bydd yr Is-fwrdd yn gweithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd fel y nodir yn y GA1 neu unrhyw gytundeb dilynol sy'n ei ddisodli.

| ADRODDIAD AR GYFER: | GRŴP AELODAU CABINET TRAFNIDIAETH |
|---|---|
| DYDDIAD: | 23 MEDI 2019 |
| TEITL: | RHEOLAETH RANBARTHOL O LIFAU GWAITH A RHAGLEN AMLINELLOL TRAFNIDIAETH |
| DIBEN: | I'r Is-grŵp gymeradwyo'r argymhelliad a'r enwau a awgrymwyd i arwain ar y gwahanol lifau gwaith a'r rhaglen amlinellol ar gyfer y tri chyfarfod nesaf o'r Is-grŵp. |
| AWDUR: | Dafydd Wyn Williams |

**1. CEFNDIR**

1.1 Er mwyn rheoli'r llifau gwaith Trafnidiaeth penodol sydd angen ystyriaeth, mewnbwn a chyfeiriad yr Is-grŵp Trafnidiaeth, mae'r papur hwn yn amlinellu dull ymarferol sy'n sicrhau cyfraniad cytbwys gan bob un o'r chwe Awdurdod yn y Rhanbarth, yn ogystal â sicrhau bod y llwyth gwaith yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng yr Awdurdodau.

1.2 Dyma'r prif swyddogion â chyfrifoldeb am weithrediadau Trafnidiaeth sy'n cynrychioli bob Awdurdod:

- Dafydd Wyn Williams
- Darren Williams
- Geraint Edwards
- Huw Percy
- Peter Daniels
- Stephen Jones

1.3 Gyda chefnogaeth Mr Iwan Prys Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd), mae'r chwe phrif swyddog wedi ystyried y prif lifau gwaith sy'n debygol o ffurfio rhan o drafodaethau'r Is-grŵp yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae'r prif swyddogion wedi amlinellu un dewis i'r Is-grŵp lle gallant arwain ar bob llif gwaith (Tabl 1). Byddai'r prif swyddogion sy'n ymgymryd â'r swyddogaethau arweiniol ar bob llif gwaith yn gyfrifol am adrodd a diweddaru'r Is-grŵp yn ogystal â sicrhau bod y cyfeiriad sy'n ddatrysiad gan yr Is-grŵp yn cael ei weithredu.

**Llifau gwaith**

**Tabl 1: Prif Swyddogion (Awdurdod) i arwain ar bob llif gwaith**

| LLIF GWAITH | SWYDDOGION ARWEINIOL |
|---|---|
| Cludiant Cyhoeddus (bysus) i gynnwys Cludiant Addysg | Peter Daniels (Sir Ddinbych), David Hesketh (Wrecsam) |
| Trafnidiaeth Carbon Isel | Dafydd Williams (Gwynedd), Geraint Edwards (Conwy), Stephen Jones (Sir y Fflint) |
| Teithio Llesol | Peter Daniels (Sir Ddinbych), Dafydd Williams (Gwynedd) |
| Cydbwyllgor Corfforaethol | pawb |

| | |
|---|---|
| Trenau | Darren Williams (Wrecsam), Stephen Jones (Sir y Fflint) |
| Cyfyngiadau 20mya a pharcio ar y droedffordd | Huw Percy (Ynys Môn), Stephen Jones (Sir y Fflint) |
| Ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu | Geraint Edwards (Conwy), Huw Percy (Ynys Môn) |
| Diogelwch Ffyrdd (Addysg, Hyfforddiant a Chyhoeddusrwydd) | Darren Williams (Wrecsam), Huw Percy (Ynys Môn) |
| Priffyrdd Strategol (gwelliannau) | Cysylltu ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru |

**Rhaglen Amlinellol**

1.4 Mae heriau arwyddocaol sydd angen eu goresgyn er mwyn gwella Trafnidiaeth yn y rhanbarth ac i sicrhau ei gynaliadwyedd yn ariannol ac yn amgylcheddol. I'r perwyl hwn, mae'n hanfodol bod gan yr Is-grŵp raglen amlinellol ar gyfer y tri sesiwn nesaf er mwyn sicrhau bod yr holl lifau gwaith yn cael eu hystyried o fewn eu rhaglen (Tabl 2) a bod cyfeiriad gwaith yn y dyfodol yn cael ei drafod a'i gytuno. Mae diweddariadau ar ddatblygiadau llifau gwaith a gwybodaeth berthnasol wedi'i gynnwys fel eitem ymhob cyfarfod o'r Is-grŵp.

**Tabl 2: Rhaglen amlinellol o eitemau ar y rhaglen (llifau gwaith)**

| DYDDIAD CYFARFOD YR IS-GRŴP | EITEMAU AR Y RHAGLEN (LLIF GWAITH) |
|---|---|
| Medi 2019 | **1. Cludiant Cyhoeddus:**<br>• Diweddariad Bysus<br>• Cludiant Addysg (datblygiadau diweddaraf - deddfwriaeth)<br>• Tocynnau Mantais<br>• Adolygiadau Bws<br><br>**2. Diweddariad ar y llifau gwaith - (gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol ac ystyriaethau'r dyfodol)** |
| Rhagfyr 2019 | 1. Trafnidiaeth Carbon Isel<br>2. Cyfyngiadau 20mya a pharcio ar y droedffordd<br>3. Priffyrdd heb eu mabwysiadu<br>4. Diweddariad ar y llifau gwaith |
| Mawrth 2020 | 1. Teithio Llesol<br>2. Diogelwch Ffyrdd<br>3. Trenau<br>4. Diweddariad ar y llifau gwaith |

**2. PENDERFYNIADAU ANGENRHEIDIOL**

2.1 I'r Is-grŵp gymeradwyo'r argymhelliad a'r enwau a awgrymwyd i arwain ar y gwahanol lifau gwaith.

2.2 I'r Is-grŵp gymeradwyo'r rhaglen amlinellol ar gyfer y tri chyfarfod nesaf o'r is-grŵp.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Is-fwrdd Trafnidiaeth |
| **DYDDIAD:** | 23 Medi 2019 |
| **TEITL:** | **Diweddariad Trafnidiaeth** |
| **PWRPAS:** | Rhoi diweddariad i'r aelodau ar ystod o faterion trafnidiaeth yn cynnwys Materion Rhwydwaith Bysiau, Diweddariad Rheilffyrdd a Datgarboneiddio |
| **ARGYMHELLIAD:** | Nodi'r adroddiad |
| **AWDUR:** | Iwan Prys Jones / Peter Daniels |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau a fydd yn cynnwys y meysydd gweithgaredd a ganlyn

- Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol
- Diweddariad Rheilffyrdd
- Datgarboneiddio Trafnidiaeth ac Ansawdd Aer.

## 2. TREFNIADAU CYFLAWNI RHWYDWAITH BYSIAU RHANBARTHOL

2.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar (1) Adolygiad Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol (2) Y rhaglen i amnewid Tocynnau Mantais Bws ledled Cymru (3) Y newidiadau i Reoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus.

**Adolygiad o'r Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol**

2.2 Yn unol â thrafodaethau mewn cyfarfodydd blaenorol a'r cynllun gwaith uchod, mae cynigion wedi'u datblygu i ddechrau adolygu opsiynau i gyflawni rhwydwaith bysus strategol rhanbarthol. Mae'r cynllun gwaith sydd wedi'i amlinellu isod wedi'i baratoi er mwyn ceisio cefnogaeth ychwanegol i'r gwaith, sy'n angenrheidiol yn sgil problemau capasiti o fewn timau trafnidiaeth presennol mewn awdurdodau lleol.

2.3 Bwriedir defnyddio arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cydlynu Bysiau yn Rhanbarthol er mwyn cael peth cefnogaeth arbenigol a phrofiadol i gyflawni'r rhaglen sydd wedi'i hamlinellu isod.

- Adolygu'r Strategaeth Rhwydwaith Bysiau a Chludiant Cymunedol a ddatblygwyd yn 2015 i'w diweddaru yng ngoleuni newidiadau i rwydweithiau ers hynny ac adolygu'r cynllun gweithredu i ystyried materion cyfredol.

- Datblygu cynigion am rwydwaith bysiau strategol rhanbarthol yn cynnwys adnabod coridorau strategol a rhwydweithiau lleol. Dylai’r cynigion gynnwys adnabod hybiau allweddol ar y rhwydwaith a phwyntiau newid moddau.
- Datblygu cynllun gweithredu er mwyn cyflwyno Partneriaethau Ansawdd ar y rhwydwaith strategol sydd wedi'i adnabod, negodi datrysiadau posib gyda gweithredwyr bysiau a phartneriaid eraill. Gallai’r datrysiadau a gynigir fod yn bartneriaethau yn seiliedig ar lwybrau, coridorau neu rwydweithiau, yn dibynnu ar y datrysiad gorau i gael ei adnabod. Dylai'r rhaglen gynorthwyo gydag arfarnu datrysiadau deddfwriaethol arfaethedig a allai ymddangos o ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ac o bosib treialu rhai agweddau ar y ddeddfwriaeth.
- Ystyried datrysiadau posib i'r diffyg gweithredwyr trafnidiaeth yn rhannau gwledig ac ymylol y rhanbarth a chynnig datrysiadau amgen i fodloni anghenion trafnidiaeth yn fforddiadwy. Gallai’r datrysiadau gynnwys cynigion ar gyfer gweithrediadau bysiau awdurdodau lleol neu ddatrysiadau a ddatblygir yn defnyddio rheoliadau trafnidiaeth gymunedol.
- Darparu cefnogaeth dechnegol i'r rhaglen gyflwyno rhwydweithiau / datrysiadau trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel neu ddi-garbon fel rhan o raglen ynni blaengar y Bwrdd Uchelgais.

**Ail-ddyrannu'r Tocynnau Teithio Mantais am Ddim**

2.4 Mae oddeutu 150,000 o docynnau teithio mantais am ddim (bws) wedi'u dyrannu ledled Gogledd Cymru. Bydd yr holl docynnau o'r fath yn dod i ben am hanner nos ar 31 Rhagfyr, 2019. Rhwng heddiw a hynny, bydd defnyddwyr y tocynnau mantais angen tocyn newydd. Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am ail-ddyrannu'r tocynnau ac, yn wahanol i'r broses flaenorol yn 2009, mae Trafnidiaeth Cymru angen i bob defnyddiwr ail-wneud cais. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn cynllunio ar gyfer hyn ers cryn amser. O bell ffordd, adnewyddu ar-lein yw'r dull sy'n cael ei ffafrio. I'r rhai sy'n methu â gwneud hynny, mae Trafnidiaeth Cymru yn cyfeirio ymgeiswyr at eu cyswllt mewn cynghorau lleol neu at ganolfannau gwasanaeth cwsmer neu ddefnyddio llyfrgelloedd i gael help i fynd ar-lein.

2.5 Roedd Trafnidiaeth Cymru wedi bwriadu cyflwyno "lansiad tawel" ar 9 Medi, 2019 ymlaen, er y bu i hyn gael ei oedi hyd 11 Medi. Y bwriad oedd i'r cyhoeddusrwydd ddilyn hyn, o ganol i ddiwedd mis Medi. O 9 Medi, wrth i'r neges ledaenu, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, cafwyd problemau sylweddol ar y porthol ar-lein ac mewn canolfannau gwasanaeth cwsmer lleol. Gorfodwyd Trafnidiaeth Cymru i dynnu'r porthol i lawr dros dro, ond erys pwysau ar lywodraeth leol ledled y rhanbarth, gan mai dyma lle mae'r cyhoedd yn tueddu i fynd pan fônt angen help a gwybodaeth. Mae hyn wedi bod yn fwrn sylweddol ar adnoddau prin ac o ganlyniad, mae awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys mewn cwynion ac yn cael eu hystyried fel rhan o'r broblem.

2.6 Wrth aros am borthol cryfach, ers 17 Medi, mae Trafnidiaeth Cymru wedi ildio ac wedi cynnig ffurflenni cais a chanllawiau papur. Mae'r rhain ar gael yn eang. Yn rhannol, gwnaed hyn yn sgil pwysau gan y cyhoedd, gan fod llawer ohonynt yn mynnu gwneud cais ysgrifenedig hyd yn oed pan fo ganddynt fynediad i'r we ar gyfrifiadur neu ffôn clyfar.

2.7 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y neges sy'n cael ei chyfleu gan yr holl staff yn y system, gan gynnwys staff rheng-flaen (ac mae Trafnidiaeth Cymru wedi dweud

droeon eu bod hwy'n dymuno ymdrin â chyfathrebiadau), yw bod gan ymgeiswyr dros dri mis i wneud cais; fodd bynnag, mae llawer o bobl yn rhwystredig gan nad ydynt yn medru cael tocyn newydd yn syth. O ganlyniad, mae adnoddau staff ar lefel lleol yn parhau i fod dan straen, a hynny mewn adrannau trafnidiaeth ac mewn canolfannau cyswllt.

**Newidiadau i'r Rheoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSVAR)**

2.8 Y rheoliadau hyn sy'n gyfrifol am osod targedau ar gyfer cyflwyno cludiant hygyrch, sy'n ofyniad gorfodol. Bydd aelodau yn gwybod, er enghraifft, ers 2017, bod gofyniad i bob cerbyd un llawr gyda mwy na 22 o seddi i deithwyr ar wasanaethau bws lleol fod yn gwbl hygyrch, ac yna o 2018, bod gofyniad i bob cerbyd deulawr fod yn gwbl hygyrch.

2.9 O 1 Ionawr, 2020, mae'r gofyniad yn ymestyn i bob coets a ddefnyddir ar wasanaethau wedi'u hamserlennu, a'r mwyaf amlwg o'r rheiny yw'r gwasanaethau a ddarperir gan National Express. Cyfres arall o wasanaethau sydd bellach ag angen am gerbydau hygyrch yw'r cerbydau rheilffordd newydd. Nid yw gweithgareddau craidd gweithredwyr coetsys, megis hurio preifat, a chontractau cartref i'r ysgol caeedig, wedi'u cynnwys yng ngofynion PSVAR.

2.10 Fodd bynnag, mae un mater o ran cludiant i ddysgwyr, lle mae awdurdod yn gwerthu sedd ar goets sy'n cael ei ddarparu dan gontract. Mae Awdurdodau yng Nghymru, yn yr un modd â mannau eraill, wedi dadlau y byddent hwy, am nifer o resymau, yn eithriedig o'r gofyniad ar gyfer mis Ionawr 2020. Fodd bynnag, mae'r Adran Drafnidiaeth bellach wedi cadarnhau y bydd angen i'r categori hwn o gludiant i ddysgwyr fod yn gwbl hygyrch o fis Ionawr 2020 ymlaen.

2.11 Mae'r holl awdurdodau ledled y rhanbarth yn gwerthu seddi o'r fath, ac ar y cyfan, ni fydd modd iddynt wneud hynny ar ôl y Nadolig 2019. Bydd effaith hyn yn ddibynnol ar raddfa'r incwm a dderbyniwyd. Er enghraifft, mae rhai yn codi tâl ar fyfyrwyr ôl-16 fel rhan o'u polisi ac mae eraill yn bwriadu gwneud hynny. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai incwm sylweddol yn cael ei osod yn erbyn y costau o ddarparu'r elfen ddewisol hon o gludiant. Mae eraill yn gwerthu llond llaw o seddi gwag ar gyfradd is na'r farchnad i gynorthwyo rhieni a allai ei chael yn anodd cludo eu plant i'w sefydliadau addysg fel arall. Waeth beth fo'r sefyllfa ariannol, mae'n debygol y bydd effaith wleidyddol.

2.12 Ar hyn o bryd, ni all awdurdodau gydymffurfio â'r gofyniad ar gyfer mis Ionawr 2020. Yn syml, nid oes digon o gerbydau hygyrch ar gael, ac mewn unrhyw achos, mae'r rhain yn gerbydau mwy newydd ac felly'n ddrytach i gyflenwyr eu prynu ac i gynghorau eu llogi. Drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r LGA, roedd llywodraeth leol wedi gobeithio am randdirymiad, ond mae'n hynod annhebygol y bydd hyn yn digwydd bellach. Felly, mae'r gofyniad ar gyfer mis Ionawr 2020 yn rhoi incwm a gallu rhai rhieni i gludo eu plant i'w sefydliad addysg, yn y fantol. Os yw Awdurdodau'n dymuno, fe allant barhau i gynnig y consesiwn, ond ni allant godi ffi. Er bod gan y mwyafrif o awdurdodau y gallu i gael gwared ar gonsesiynau yn gyflym (e.e. pan fo dysgwr cymwys angen y lle), mae dadl yn cael eu chynnal mewn o leiaf un awdurdod ynghylch p'un a ddylai'r consesiynau barhau yn sgil parhad cyrsiau ar lefel TGAU a Lefel A.

2.13 Yn ogystal, bydd PSVAR yn effeithio ar nifer o drefniadau preifat, rhieni neu ysgol lle mae'r gweithredwyr yn defnyddio coetsys, neu'n bwriadu defnyddio coetsys.

## 3. DIWEDDARIAD TRAFNIDIAETH

3.1 Mae'r eitemau a ganlyn yn rhoi diweddariad cyffredinol ar amrediad o faterion cyfredol. Yn bennaf, eitemau er gwybodaeth yw'r rhain.

**Ymgyrch Growth Track 360 - Diweddariad Rheilffyrdd**

**Gwelliannau i'r gwasanaeth rheilffyrdd - Masnachfraint Cymru a'r Gororau**

3.2 Cyflawnwyd nifer o ddyheadau Growth Track 360 ar gyfer gwella'r gwasanaeth rheilffordd wrth i fasnachfraint newydd Cymru a'r Gororau gael ei dyfarnu. Mae'r enillion allweddol ar gyfer Growth Track 360 sydd i'w gweithredu erbyn 2022 yn cynnwys:

- Gwasanaethau uniongyrchol newydd o Ogledd Cymru i Lerpwl
- Wrecsam – Bidston (Rhagfyr 2021): Cynyddu o 1tya i 2tya, bydd 1tya yn daith arosiadau cyfyngedig
- Fflyd lawn o drenau newydd
- Gwasanaethau newydd Liverpool Lime St
- Gwir wasanaeth 7 diwrnod. Bydd gwasanaethau newydd ar ddydd Sul yn cychwyn yn 2019, gyda chynnydd o 22% yn syth mewn milltiroedd ar y Sul.
- Uwchraddio gorsafoedd, gan gynnwys mwynderau i deithwyr, diogelwch, cynnig manwerthu, Hygyrchedd + mynediad heb stepiau, parcio, tocynnau, WiFi, ac ati.
- Gostyngiad o 10% mewn ffioedd ar y dydd a ffioedd tymor i Ogledd Cymru, o Ogledd Cymru ac o fewn Gogledd Cymru, i annog teithio.
- Buddsoddi yng Ngorsaf Shotton a Wrecsam Canolog o fis Ebrill 2024, i alluogi medr Metro Gogledd Cymru.
- Wrecsam Canolog: - cyfnewidfa aml-ddull
- Buddsoddi yn safle a chyfnewidfa gorsaf Caer

**Gwelliannau i'r gwasanaeth rheilffyrdd - Masnachfraint Partneriaeth Arfordir y Gorllewin**

3. Cyfarfu Growth Track 360 â'r bidwyr ar gyfer y gwasanaethau Arfordir y Gorllewin newydd i sicrhau bod dyheadau Growth Track 360 yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i ddarpar weithredwyr y gwasanaeth. Cyflwynwyd bidiau i'r Adran Drafnidiaeth ym mis Gorffennaf 2018 ac rydym yn disgwyl i'r fasnachfraint gael ei dyfarnu - roedd hyn i fod i ddigwydd ym mis Mai 2019.

3.4 Ym mis Awst 2019, cyhoeddwyd mai i First Group / Trenitalia y dyfarnwyd y fasnachfraint.

3.5 Nid oes llawer o wybodaeth ar gael ynghylch amrediad llawn y cynigion ac rydym yn ceisio cyfarfod â'r darpar weithredwyr er mwyn cael gwybod mwy o fanylion. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn y datganiad i'r wasg yn cyflwyno peth gwybodaeth am y gwelliannau. Yn gyffredinol, bychan yw'r sgôp. Maent yn cynnwys:

- Amnewid y trenau Voyager presennol gyda threnau *bi-bode* newydd (heb nodi manylion penodol)
- Ymestyn yr 1 trên dyddiol presennol o Wrecsam i Gobowen

- Trenau hwyrach yn ystod dyddiau'r wythnos i Euston o Arfordir y Gogledd Orllewin o 2020
- Trenau cynharach a hwyrach i / o Euston o Arfordir y Gogledd Orllewin ar ddyddiau Sadwrn o 2022
- Trenau cynharach a hwyrach i / o Euston o Arfordir y Gogledd Orllewin ar ddyddiau Sul o 2022
- Gwasanaeth uniongyrchol ar ddyddiau Sadwrn dros yr haf rhwng Euston a Llandudno o 2021

Nid oes unrhyw gynigion eraill wedi'u cynnwys hyd yma ac mae rhai o'r manylion ynghylch yr ymrwymiadau hyn yn bur brin hefyd.

Yn benodol, nid oes unrhyw wybodaeth am unrhyw ymrwymiadau ar ôl 2026, pan oedd prosiect HS2 i fod i gael ei gwblhau.

**Buddsoddi yn yr Isadeiledd Rheilffyrdd**

3.6 Mae llunio achos ar gyfer buddsoddi mewn gwelliannau isadeiledd yn ddeilliant allweddol gan GT360, a gwelwyd peth llwyddiant i sicrhau arian datblygu fel y gellir ymgymryd ag achosion busnes penodol. Mae natur unigryw Growth Track 360 sy'n gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau, wedi golygu y bu modd sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth, gydag arian ychwanegol i ddod gan gynghorau lleol a Merseytravel. Mae'r cyd-ariannu hyn wedi cynorthwyo i fwrw prosiectau yn eu blaen.

3.7 Mae arian datblygu wedi'i sicrhau ar gyfer:

- Dwy orsaf newydd yng Ngogledd Cymru, Deeside Parkway a Chyfnewidfa Shotton,
- Astudiaethau ar gyflymder lein Arfordir Gogledd Cymru a chapasiti Wrecsam i Bidston
- Achos Busnes Amlinellol Strategol ar gyfer capasiti gorsaf Caer
- Cyllid er mwyn i Drafnidiaeth Cymru gyflawni gwelliannau capasiti yn ardal Wrecsam yn gysylltiedig â datblygu Hwb Trafnidiaeth Wrecsam.

3.8 Mae sicrhau'r buddsoddiad cychwynnol hwn yn natblygiad y prosiect yn gam llwyddiannus tuag at gyflawni dyraniad polisi o fewn y dull *'tail funding'* newydd.

3.9 Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r rhwydwaith rheilffyrdd hefyd wedi gweld Halton Curve yn cael ei gwblhau a chyflwyniad gwasanaethau newydd rhwng Caer / Wrecsam a Liverpool Lime Street, signalau gwell ar Arfordir Gogledd Cymru a gwelliannau capasiti rhwng Caer a Wrecsam fel rhan o fuddsoddiad yn y diwydiant rheilffyrdd. Yn ogystal, bu i'r gwasanaeth Northern newydd rhwng Leeds a Chaer ddechrau gweithredu ym mis Mai.

3.10 Mae'r adborth yn dilyn misoedd cyntaf y gwasanaethau Caer i Lime Street a Chaer i Leeds, wedi bod yn gadarnhaol, gyda niferoedd y teithwyr yn dda, er gwaetha'r ffaith nad yw'r ddau wasanaeth yn gweithredu i'w llawn botensial ar hyn o bryd.

**Hwb Crewe - Cysylltedd i HS2**

3.11 Mae cyflawni'r datrysiad cywir yn Crewe ar gyfer HS2 a galluogi i boblogaeth mor fawr elwa o'r buddsoddiad cenedlaethol mawr yn isadeiledd HS2 yn hanfodol i Growth Track 360 ac i economi'r rhanbarth yn ehangach. Ar y cyd â chydweithwyr o Cheshire East, Cheshire and Warrington Local Enterprise Partnership a'r Constellation Partnership, mae Growth Track 360 wedi bod yn lobïo er mwyn i fwy o drenau stopio yn Crewe (hyd at 5-7 trên bob awr). Bu i'r datganiad am Gam 2a HS2 yn ystod Gwanwyn 2018, gydnabod y patrwm gwasanaeth hwn yn gadarnhaol ac mae Growth Track 360 yn parhau i gefnogi'r safbwynt hwn, wrth i'r bil hybrid fynd drwy'r Senedd. Mae'r gydnabyddiaeth hon i hwb Crewe yn ganlyniad hynod gadarnhaol i'r ymgyrch.

3.12 Rydym oll yn deall bod gwaith yn parhau i ddatblygu datrysiadau yn Crewe lle na fydd angen i blatfformau gael eu hadeiladu ar y leiniau sy'n osgoi trenau cludo, ac mae hwn yn gynnig yr ydym yn ei gefnogi, cyhyd ag y bo'r datrysiad y cytunir arno yn golygu bod modd cael cysylltedd traws-blatfform rhwydd i wasanaethau HS2 o'r ardal MDA.

3.13 Mae'r oedi diweddar a'r cynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig â HS2 a'r adolygiad a addawyd gan y Llywodraeth yn bryder gwirioneddol. Mae'n bosib y gallai'r prosiect gael ei ddad-sgopio'n sylweddol, neu gael ei ganslo'n rhannol, o ganlyniad i'r adolygiad. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

**Prosbectws Rheilffordd Strategol y Gorllewin a Chymru**

3.14 Mae nifer o'r rhwystrau allweddol i redeg gwasanaethau gwell yn ardal yr MDA i'w canfod mewn hybiau allweddol ar y rhwydwaith rheilffyrdd yn Lloegr. Mae datrysiadau yn Crewe, Manceinion, Lerpwl a Birmingham sy'n ychwanegu capasiti ar gyfer gwasanaethau ychwanegol yn hanfodol i'n hardal.

3.15 Roedd angen cyfleu dyheadau'r rhanbarth mewn cyd-destun strategol ehangach er mwyn ennyn cefnogaeth gan y gogledd ac yn genedlaethol. Gan weithio'n agos â chydweithwyr o Cheshire East, Warrington a Network Rail a Rheilffordd Strategol y Gorllewin a Chymru, datblygwyd prosbectws fydd yn bwydo'n uniongyrchol i waith ar Goridor Datblygu y Gorllewin a Chymru TfN. Roedd hyn yn waith cydlynu pwysig er mwyn creu gweledigaeth gref ar gyfer y rhanbarth ehangach ac mae pedwar prif hwb wedi'u hadnabod: Hwb Crewe HS2, Warrington NPR touch point, Maes Awyr Manceinion a Chaer. Cynhaliwyd lansiad Seneddol llwyddiannus ym mis Chwefror 2018, gyda thri Gweinidog yn siarad ynddo, gan gynnwys Chris Grayling, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, a Ken Skates, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Isadeiledd a'r Economi.

3.16 Yn fwy diweddar wrth i TfN gynhyrchu eu cynigion ar gyfer coridor y Gorllewin a Chymru, tynnwyd sylw at rai o'r prosiectau allweddol, gan gynnwys capasiti yng Ngorsaf Caer a rhwng Wrecsam a Lerpwl, fel blaenoriaethau ar gyfer datblygiadau prosiect ar gyfer y cyfnod hyd at 2027. Dyma gam cyntaf pwysig i sicrhau buddsoddiad pellach ar gyfer datblygu prosiect.

**Datgarboneiddio Trafnidiaeth ac Ansawdd Aer**

3.17 Mae datgarboneiddio trafnidiaeth yn fater o bwys a fydd yn cael effaith ar yr holl rwydweithiau trafnidiaeth yn y degawd nesaf. Bydd ymrwymiadau'r llywodraeth i leihau allyriadau carbon a ddaw o drafnidiaeth, yn cynnwys yr angen i bob car preifat fod yn ddi-garbon erbyn 2040 a gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau o'r holl gerbydau eraill, yn cael effaith sylweddol ar gysylltedd.

3.18 Mae pryderon ynghylch ansawdd aer, yn enwedig yn sgil traffig ar rannau lle mae tagfeydd mawr yn ein rhwydwaith ffyrdd eisoes yn cael effaith. Gweithredu rhannau 50mya ar gefnffyrdd yr A483 a'r A494 yn ddiweddar yw'r enghreifftiau cyntaf o gamau i leihau effaith y llygredd o danwydd carbon. Mewn nifer o'n hardaloedd trefol ac ar hyd ffyrdd prysur â thagfeydd, mae'n debygol y bydd pwysau ychwanegol gan drigolion, wedi'i gefnogi gan gamau cyfreithiol, sy'n ceisio gwella ansawdd aer. Mae hyn yn debygol o fod yn fater o bwys i awdurdodau lleol yn y dyfodol.

3.19 Mae nifer o fentrau a chyfleoedd am waith ar y cyd wedi codi dros y misoedd diweddar.

**Prosiect Gwefru SPEN** - Mae gweithredwr rhwydwaith dosbarthu SP Energy Networks wedi llunio partneriaethau â nifer o ymgynghorwyr technegol ar gyfer prosiect gwefru EV gwerth £8.5 miliwn. Mae Project Charge, fel y cyfeirir ato, yn cael ei gyllido drwy'r Ofgem Network Innovation Competition ac mae'n ceisio canfod ffyrdd o oresgyn heriau gwefru EV. Bydd y prosiect yn datblygu datrysiadau ar gyfer gwefru mewn cartrefi sydd heb dramwyfeydd, gwefru mewn lleoliadau cyhoeddus megis canolfannau siopa ac atyniadau i dwristiaid, a gwefru mewn gorsafoedd tanwydd ac mewn gwasanaethau ar draffyrdd. Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni ledled rhwydwaith SPEN, gan gynnwys yn yr ardal MDA.

**Prosiect Trafnidiaeth Teithwyr Carbon Isel Rhanbarth Dinas Lerpwl (LCR)** - Yn ddiweddar, mae LCR wedi cyhoeddi prosiect £6.4 miliwn lle y bydd 25 o fysiau trydan - hydrogen yn cael eu cyflwyno ar rwydweithiau yn y ddinas. Bydd y prosiect yn cynnwys gorsaf danwydd hydrogen. Bwriedir i'r cerbydau gael eu defnyddio o 202? ymlaen.

**Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth BUEGC** - Cafwyd arian i asesu dichonolrwydd hyd at dri phrosiect i ystyried prosiectau trafnidiaeth carbon isel / di-garbon yng Ngogledd Cymru. Y lleoliadau dan ystyriaeth yw Glannau Dyfrdwy, Caergybi a Pharc Cenedlaethol Eryri. Yn ddiweddar, rhyddhawyd adroddiad drafft terfynol Steer a bellach mae gwaith wedi mynd rhagddo ar friffiau i fynd ati i ddatblygu achos busnes manwl ar gyfer yr prosiectau a nodwyd.

3.20 Cafwyd trafodaethau cadarnhaol gyda Chyngor Bwrdeistref Halton yn ddiweddar ynghylch y posibilrwydd o gydweithio, gan rannu arbenigedd a chyd-gaffael i helpu i leihau'r costau fesul uned o gyflwyno technolegau newydd.

3.21 Yn sgil argaeledd yr isadeiledd, o ran rhai prosiectau arloesol dan ystyriaeth megis Hynet, ac ati, mae cyfleoedd cryf am gydweithio ar draws ffiniau i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i leihau effaith amgylcheddol trafnidiaeth.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gwahoddir Aelodau i nodi'r adroddiad diweddariad a'r materion y tynnwyd sylw atynt.

4.2 Efallai y dymuna aelodau ystyried comisiynu adroddiadau diweddariad mwy manwl ar unrhyw rai o'r materion y tynnwyd sylw atynt.